# Y Pwyllgor Deisebau

## PET(3)-06-09 Papur 2: 31 Mawrth 2009

### Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

Mae'r papur hwn yn rhestru'r wybodaeth ddiweddaraf a gafwyd am ddeisebau a ystyriwyd yn flaenorol gan y pwyllgor. Daeth llawer o'r wybodaeth ddiweddaraf i law ar ffurf gohebiaeth. Pan fo'n berthnasol, mae copïau o'r ohebiaeth wedi'u cynnwys fel atodiad PET(3) 06-09 Papur 2A i'r papur hwn.

### (i) P-03-063 Gwahardd Bagiau Plastig

## Geiriad y ddeiseb

'Mae'r rheini ohonom sydd wedi llofnodi'r ddeiseb hon yn datgan ein bod o blaid gwahardd yng Nghymru fagiau plastig na fwriedir iddynt gael eu hailddefnyddio.Felly, rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i wahardd bagiau plastig na fwriedir iddynt gael eu hailddefnyddio.'

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-063.htm

**Cynigiwyd gan:** Neil Evans

**Nifer y deisebwyr:** 10

**Ystyriodd y pwyllgor y ddeiseb hon ar:** 06 Rhagfyr 2007 a 20 Tachwedd 2008

**Y wybodaeth ddiweddaraf:** Gosododd y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai y

mateb ysgrifenedig e

i

adroddiad y Pwyllgor Cynaliadwyedd ar y ddeiseb hon

ar 04 Chwefror 2009. Mae wedi derbyn argymhellion y Pwyllgor Cynaliadwyedd o ran egwyddor. Cynhaliwyd dadl yn y Cyfarfod Llawn ar yr adroddiad ar 11 Chwefror 2009.

Mae copi o ymateb ysgrifenedig y Gweinidog ar gael; c

liciwch yma e

i weld copi.

### (ii) P-03-081 Rheoliadau Benthyciadau i Fyfyrwyr

### Geiriad y ddeiseb

'Rydym ni, sydd wedi llofnodi isod, yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i ychwanegu at y galwedigaethau sydd wedi'u heithrio, a restrir uchod, er mwyn cynnwys unrhyw gwrs gradd i israddedigion sy'n rhagofyniad cyfreithiol, gorfodol i gymhwyso neu gofrestru mewn galwedigaeth benodol. Dyma rai enghreifftiau o gyrsiau o'r fath:

BSc/Op i gofrestru fel Optometrydd

MPharmacy i gofrestru fel Fferyllydd

Rydym yn annog Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gryf i weithredu'r newidiadau hyn fel mater o flaenoriaeth, gan sicrhau bod y newidiadau'n ôl-weithredol os yw hynny'n bosibl. Y cymhelliad ar gyfer cyflwyno'r ddeiseb yw'r dymuniad i sicrhau nad yw myfyrwyr aeddfed, yn arbennig y rhai sydd o gefndiroedd llai cefnog, yn cael eu heithrio o'u derbyn i broffesiynau na chynhwysir yn y rheoliadau presennol, ac nad oes llwybr arall yn agored atynt o ran cofrestru.Hefyd, gofynnwn fod Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n rhoi ystyriaeth briodol i'r posibilrwydd o ddarparu benthyciadau i fyfyrwyr i dalu'r ffioedd yn rhannol am gymwysterau o'r fath.'

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.assemblywales.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-081.htm

**Cynigiwyd gan:** Mr Deri Burgess

**Nifer y deisebwyr:** 16

**Ystyriodd y pwyllgor y ddeiseb hon ar:** 6 Rhagfyr 2007, 10 Ebrill 2008, 22 Mai 2008, 2 Hydref 2008 a 27 Ionawr 2009.

**Y wybodaeth ddiweddaraf:** Cafwyd y wybodaeth ddiweddaraf gan y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau ac mae'n amgaeedig fel rhan o PET(3) 06-09 Papur 2A.

# (iii) P-03-085 - Meddygfeydd yn Sir y Fflint

## Geiriad y ddeiseb

'Rydym ni feddygon ym Meddygfa'r Laurels, Meddygfa Eyton Place a Chanolfan Feddygol Allt Goch yn rhwystredig (fel yr ydych chi mae'n siŵr) oherwydd yr anawsterau a gawn wrth geisio cynnig digon o apwyntiadau ar gyfer ein cleifion.Fel y gwyddoch, rydym wedi'n cyfyngu'n llwyr gan faint ein hadeilad ac mae gwir angen symud i safle mwy - mewn Canolfan Gofal Sylfaenol newydd os oes modd. Mae'r cynnydd yn hyn o beth wedi dod i ben yn dilyn penodiad diweddar y Gweinidog Iechyd newydd a hoffem ddod â'n pryderon i'w sylw. Gofynnwn i chi arwyddo'r ddeiseb hon i gefnogi'n hymdrechion i brysuro'r broses hon; "Fel claf mewn Meddygfa yn Sir y Fflint, gofynnwn i'n Haelod Cynulliad, Mrs Sandy Mewies, roi pwysau ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i ddatblygu Canolfan Gofal Sylfaenol newydd ar fyrder"

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-085.htm

**Cynigiwyd gan:** Gillian Robinson

**Nifer y deisebwyr:** 412

**Ystyriodd y pwyllgor y ddeiseb hon ar:** 21 Chwefror 2008, 10 Ebrill 2008, 22 Mai 2008 a 27 Ionawr 2009.

**Y wybodaeth ddiweddaraf:** Cafwyd y wybodaeth ddiweddaraf gan y Gweinidog dros Iechyd a'r Gwasanaethau Cymdeithasol ac mae'n amgaeedig fel rhan o PET(3) 06-09 Papur 2A.

# (iv) P-03-099 - Llwybr aml-ddefnydd yn Nhalybont-ar-Wysg

**Geiriad y ddeiseb**'Rydym ni sydd wedi arwyddo isod yn gofyn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ddarparu llwybr ar gyfer holl ddefnyddwyr heblaw modurwyr ochr yn ochr â'r A40 rhwng y gilfan bicnic yn y Bwlch a'r gyffordd newydd yn Nhalybont-ar-Wysg, gan greu cyswllt diogel rhwng y Mynydd Du a rhwydwaith Hawliau Tramwy Bannau Brycheiniog.'

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-99.htm

**Cynigiwyd y ddeiseb gan:** Lucienne Bennett

**Nifer y deisebwyr:** 18

**Ystyriodd y Pwyllgor y ddeiseb hon ar:** 21 Chwefror 2008 a 08 Mai 2008

**Y wybodaeth ddiweddaraf:** Bu'r ddeiseb hon yn segur ac efallai y bydd y Pwyllgor am gymryd camau pellach mewn cysylltiad â hi.

# (v) P-03-107 - Papur Dyddiol Cymraeg

## Geiriad y ddeiseb

'Galwn ar Lywodraeth Cymru i wireddu ar frys yr addewid clir i sefydlu papur dyddiol Cymraeg a gyhoeddwyd yn Cymru'n Un:'Byddwn yn cynyddu'r cyllid a'r gefnogaeth a roddir i gylchgronau a phapurau newydd Cymraeg, gan gynnwys sefydlu papur newydd dyddiol Cymraeg'Galwn am gyhoeddiad newydd gan y llywodraeth bod swm digonol yn cael ei neilltuo'n benodol ar gyfer sefydlu papur cenedlaethol annibynnol yn Gymraeg, yn unol â'r ymchwil sydd wedi ei wneud gan sefydliadau profiadol yn y maes'.

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-107.htm

**Cynigiwyd gan:** Cymdeithas yr Iaith

**Nifer y deisebwyr:** 1,000+

**Ystyriodd y Pwyllgor y ddeiseb hon:** 10 Ebrill 2008, 11 Mehefin 2008, 23 Gorffennaf 2008, 2 Hydref 2008, 4 Rhagfyr 2008, 27 Ionawr 2009 a 2 Mawrth 2009

**Y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb:** Cafwyd y wybodaeth ddiweddaraf gan Dyddiol Cyf ac mae'n amgaeedig fel rhan o PET(3) 06-09 Paper 2A.

### (vi) P-03-122 Chwarel Hafod

### Geiriad y ddeiseb

'Yr ydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i ymchwilio i benderfyniad Llywodraeth Cynulliad Cymru i beidio â dynodi Chwarel Hafod yn safle o Bwysigrwydd Cenedlaethol'

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-122.htm

**Cynigiwyd gan:** Pauline Smout

**Nifer y deisebwyr:** 1 sefydliad

**Ystyriodd y pwyllgor y ddeiseb hon ar:** 16 Hydref 2008, 13 Ionawr 2009 a 10 Chwefror 2009

**Y wybodaeth ddiweddaraf:** Cafwyd adroddiad gan y deisebydd ac mae copi ohono'n amgaeedig fel rhan o PET(3) 06-09 Papur 2A.

**(vii) P-03-124 Cysgliad**

**Geiriad y ddeiseb**

'Yr ydym ni, sydd wedi llofnodi isod, yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i ofyn i Lywodraeth Cynulliad Cymru sicrhau bod fersiwn Windows o'r geiriadur/thesawrws Cymraeg, Cysgliad ar gael i'w lawrlwytho am ddim.'

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/eform-sign-petition-old/p-03-124.htm

**Cynigiwyd y ddeiseb gan:** Alun Evans

**Nifer y deisebwyr:** 11

**Ystyriodd y Pwyllgor y ddeiseb hon ar:** 11 Mehefin 2008, 02 Hydref 2008, 20 Tachwedd 2008.

**Y wybodaeth ddiweddaraf:** Bu'r ddeiseb hon yn segur ac efallai y bydd y Pwyllgor am gymryd camau pellach mewn cysylltiad â hi.

# (ix) P-03-143 - Ysgol Penmaes

## Geiriad y ddeiseb

'Rydym ni, y rhai sydd wedi llofnodi isod, yn galw ar y Cynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cynulliad Cymru i fuddsoddi yng nghysylltiadau cludiant mewn rhanbarthau gwledig, fel Powys.'

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-143.htm

**Cynigiwyd y ddeiseb gan:** Catherine Lewis

**Nifer y deisebwyr:** 15

**Ystyriodd y Pwyllgor y ddeiseb hon ar:** 23 Gorffennaf 2008 a 20 Tachwedd 2008.

**Y wybodaeth ddiweddaraf:** Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu y

mateb ysgrifenedig e

i a

droddiad yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig ar amddifadedd yng nghefn gwlad n

.

Mae copi o ymateb ysgrifenedig y Gweinidog ar gael; c

liciwch yma e

i edrych arno.

Mae copi o'r ymateb hefyd yn amgaeedig fel rhan o PET(3) 06-09 Papur 2A.

### (x) P-03-144 Cŵn Tywys y Deillion

### Geiriad y ddeiseb

'Yr ydym ni, y cynrychiolwyr a lofnodir isod, yn deisebu Cynulliad Cenedlaethol Cymru i osod cyfrifoldeb penodol ar awdurdodau lleol i fod yn ymwybodol o'u dyletswyddau dan y Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd a'r Ddyletswydd Cydraddoldeb Anabledd, a chydymffurfio â hwy drwy beidio â chreu canol trefi, strydoedd mawr na strydoedd preswyl gydag arwynebau a rennir sy'n gwahaniaethu yn erbyn pobl ddall a phobl sy'n gweld yn rhannol a phobl anabl eraill, gan eu hallgáu i bob pwrpas o amgylchedd y stryd.'

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-144.htm

**Cynigiwyd y ddeiseb gan:** Cŵn Tywys y Deillion

**Nifer y deisebwyr:** 10 sefydliad

**Ystyriodd y Pwyllgor y ddeiseb hon :** 25 Mehefin 2008, 2 Hydref 2008, 4 Rhagfyr  2008 a 27 Ionawr 2009.

**Y wybodaeth ddiweddaraf:** Cafwyd y wybodaeth ddiweddaraf gan y Dirprwy Brif Weinidog ac mae'n amgaeedig fel rhan o PET(3) 06-09 Papur 2A.

# (xi) P-03-145 Prisiau Tanwydd

# Geiriad y ddeiseb

'Yr ydym ni sydd wedi llofnodi isod yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i gydnabod effaith ariannol llethol codiadau mewn prisiau tanwydd ar fusnesau Cludo Nwyddau yng Nghymru ac yn gofyn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ddechrau adolygiad / ymchwiliad i gystadleurwydd a chynaliadwyedd y diwydiant Cludo Nwyddau ar Ffyrdd yng Nghymru yn y dyfodol. Dylid wedyn defnyddio canlyniad unrhyw ymchwiliad i lunio mesurau cefnogol ar gyfer y Diwydiant Cludo Nwyddau ar Ffyrdd yma yng Nghymru a lobïo Llywodraeth Genedlaethol y DU pan fydd unrhyw fesurau y tu hwnt i gylch gwaith Cynulliad Cenedlaethol Cymru.'

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-145.htm

**Cynigiwyd y ddeiseb gan:** Martin Palmer

**Nifer y deisebwyr :** 35 cwmni cludo nwyddau

**Ystyriodd y Pwyllgor y ddeiseb hon:** 25 Mehefin 2008, 02 Tachwedd 2008 a 04 Rhagfyr 2008.

**Y wybodaeth ddiweddaraf:** Mae Llywodraeth Cymru wedi ymateb i adroddiad y Pwyllgor Menter a Dysgu ar y ddeiseb hon. Mae copi o'r ymateb hwn yn amgaeedig fel rhan o PET(3) 06-09 Papur 2A.

### (xii) P-03-150 Safonau Canser Cenedlaethol

### Geiriad y ddeiseb

'Yr ydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i ymchwilio a yw'r strategaethau a'r cynlluniau gweithredu angenrheidiol ar waith gan Fyrddau Iechyd Lleol er mwyn cyrraedd y targed o ran cyflawni â'r Safonau Canser Cenedlaethol erbyn mis Mawrth 2009 yn Rhondda Cynon Taf a ledled Cymru, fel mater o frys.'

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/eform-sign-petition-old/p-03-150.htm

**Cynigiwyd gan:** 'Rhondda Breast Friends'

**Nifer y deisebwyr:** Casglodd yr e-ddeiseb 43 o lofnodion.

Yn ogystal â hyn, mae Rhondda Breast Friends wedi datblygu siarter ynghylch y gwelliannau sydd eu hangen ar wasanaethau gofal canser, sydd wedi ei lofnodi gan 1,475 o bobl

**Ystyriodd y pwyllgor y ddeiseb hon ar:** 9 Gorffennaf 2008, 6 Tachwedd 2008, 13 Ionawr 2009 a 10 Chwefror 2009

**Y wybodaeth ddiweddaraf:** Cafwyd y wybodaeth ddiweddaraf gan y Gweinidog dros Iechyd a'r Gwasanaethau Cymdeithasol ac mae'n amgaeedig fel rhan o PET(3) 06-09 Papur 2A.

# (xiii) P-03-153 Celf Corff

**Geiriad y ddeiseb**

'Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i roi cyfyngiadau ar yr oed y gall plentyn dan oed gael celf corff. Dylid cyfyngu'r oed ar gyfer celf corff, ar wahân i'r clustiau a'r trwyn, i 16 oed'

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-153.htm

**Cynigiwyd y ddeiseb gan:** y Cyngh. Russell Down

**Nifer y deisebwyr:** 14

**Ystyriodd y Pwyllgor y ddeiseb hon ar :** 10 Chwefror 2009

**Y wybodaeth ddiweddaraf:** Cafwyd y wybodaeth ddiweddaraf gan wasanaeth cyfreithiol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

### (xiv) P-03-156 Dal anadl wrth gysgu

### Geiriad y ddeiseb

'Y dylai Cymru gael polisi effeithiol, cydlynol ac sydd wedi'i gyllido'n dda ar gyfer pob claf sydd ag anhwylder cysgu. Byddai hyn yn cynnwys darparu peiriannau sy'n Pwyso'n Barhaus ac yn Gadarnhaol ar y Sianel Aer (CPAP) ar gyfer dioddefwyr sydd wedi cael diagnosis o Ddal Anadl wrth Gysgu Rhwystrol (OSA).'Linc i'r ddeiseb: http://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/dogfennau-busnes-deisebau/p-03-156.htm Cynigwyd y ddeiseb gan: Y Welsh Sleep Apnoea SocietyNifer y llofnodion: 1 sefydliad Ystyriwyd yn flaenorol gan y pwyllgor ar: 16 Hydref 2008, 6 Tachwedd 2008, 13 Ionawr 2009 a 2 Mawrth 2009.Y wybodaeth ddiweddaraf: Cafwyd y wybodaeth ddiweddaraf gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ac mae hwn yn amgaeedig fel rhan o PET(3) 06-09 Papur 2A.

**(xv) P-03-163 Gwelliannau i'r A487**

# Geiriad y ddeiseb

'At: Lywodraeth Cynulliad CymruOherwydd y nifer cynyddol o ddamweiniau sy'n digwydd ar yr A487 rhwng Bryn Hendre (ar ben Rhiw Penglais) a phont reilffordd Rhydtir ac, yn fwyaf diweddar, damwain rhwng nifer o gerbydau a oedd yn cynnwys plant wrth gyffordd Dorglwyd, Comins Coch, Aberystwyth, mae'r ddeiseb hon yn cynnwys llofnodion trigolion cyfagos a rhieni a defnyddwyr pryderus yr A487 sy'n galw ar weithredu'r mesurau canlynol er lles diogelwch y cyhoedd cyn i ddamwain angheuol arall ddigwydd.

Y caiff cylchfan ei hadeiladu wrth gornel Dorglwyd (A487), Comins Coch, Aberystwyth ar unwaith.

Y caiff y pafin ym Mryn Hendre (A487) Waun Fawr, Aberystwyth ei ymestyn at yr eiddo a elwir yn "Peniarth".

Y caiff colofnau goleuo ychwanegol eu gosod ym Mryn Hendre (A487) er mwyn cynorthwyo i ddiogelu'r trigolion.

Y caiff uchafswm cyflymder o 40mya ei ymestyn o gyffordd Maeshendre (A487), Waun Fawr i bont reilffordd Rhydtir.

Y caiff mannau croesi mwy diogel eu hadeiladu ar gyfer myfyrwyr ar ben Rhiw Penglais (A487) a'u bod wedi'u goleuo'n dda.'

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-163.htm

**Cynigiwyd y ddeiseb gan:** y Cyngh. John Roberts

**Nifer y deisebwyr:** 821

**Ystyriodd y Pwyllgor y ddeiseb yn flaenorol ar:** 06 Tachwedd 2008 a 13 Ionawr 2009.

**Y wybodaeth ddiweddaraf:** Cafwyd y wybodaeth ddiweddaraf gan y deisebydd ac mae'n amgaeedig fel rhan o PET(3) 06-09 Paper 2A.

### (xvi) P-03-166 Ysbyty Abertyleri a'r Cylch

Geiriad y ddeiseb 'Rydym ni, sydd wedi llofnodi isod, yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru I annog Llywodraeth y Cynulliad I edrych ar fwriad y bwrdd iechyd lleol I gau Ysbyty Abertyleri a'r Cylch a rhoi sylw i'r mater.'Linc i'r ddeiseb: http://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-166.htm Cynigwyd y ddeiseb gan: Martha LowmanNifer y llofnodion: 12Ystyriwyd yn flaenorol gan y pwyllgor ar: 16 Hydref 2008, 20 Tachwedd 2008, 27 Ionawr 2009 a 02 Mawrth 2009. Y wybodaeth ddiweddaraf: Cafwyd y wybodaeth ddiweddaraf gan y deisebydd ac mae'n amgaeedig fel rhan o PET(3) 06-09 Papur 2A.(xvii) P-03-172 Fferi Abertawe/Cork**Geiriad y ddeiseb**'Yr ydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog, ym mhob ffordd bosibl, adfer yn fuan y fferi rhwng Abertawe/Cork. Credwn y bydd iddi fanteision economaidd a chymdeithasol pendant i'r naill economi a'r llall.'

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/eform-sign-petition-old/p-03-172.htm

**Cynigiwyd y ddeiseb gan:** John Hosford

**Nifer y deisebwyr:** Cynigiwyd y ddeiseb hon gan John Hosford a chasglodd 29 o lofnodion. Cafwyd dros 1,500 llofnod a datgan cefnogaeth ar wefan y deisebydd yn galw am adfer y llwybr fferi hwn.

**Ystyriwyd yn flaenorol gan y Pwyllgor ar:** 16 Hydref 2008, 06 Rhagfyr 2008 a 27 Ionawr 2009.

**Y wybodaeth ddiweddaraf:** Cafwyd y wybodaeth ddiweddaraf gan y Dirprwy Brif Weinidog ac mae'r adroddiad yn amgaeedig fel rhan o PET(3) 06-09 Papur 2A.

### (xviii) P-03-184 Tocynnau bws rhatach

Geiriad y ddeiseb'Rydym ni, sydd wedi llofnodi isod, yn gofyn i Lywodraeth Cynulliad Cymru adolygu'r polisi tocynnau rhatach ar frys o ran ariannu llwybrau bysiau gwledig.Mae'r polisi presennol yn golygu bod llwybrau teithiau hir gwledig yn derbyn arian sy'n seiliedig ar gyfartaledd y depo, a gall hyn fod yn isel am fod nifer fwy o lwybrau bysiau trefol.Rydym ni, sydd wedi llofnodi isod, yn gwrthwynebu'n gryf y bwriad arfaethedig i gau llwybr bws 333 rhwng Doc Penfro a Chaerfyrddin oherwydd y polisi tocynnau rhatach.Defnyddir y llwybr hwn yn bennaf gan ddeiliaid pasys tocynnau rhatach er mwyn cyrraedd y gwasanaethau yn Ysbyty Glangwili a gwasanaethau deintyddol yn ogystal â siopau.Ers cau gwasanaethau deintyddol y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yn Ninbych-y-pysgod, cafodd yr holl gleifion eu trosglwyddo'n awtomatig i Gaerfyrddin.Yn ogystal, caiff nifer sylweddol o glinigau eu cynnal yn Ysbyty Glangwili, felly mae'r llwybr bws hwn yn hanfodol i ddarparu ffordd rwydd a theg i bawb gyrraedd y gwasanaethau y mae ganddynt hawl iddynt'

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/admissible-pet/p-03-184.htm

**Cynigiwyd y ddeiseb gan:** Anne Price

**Nifer y deisebwyr:** 756

**Ystyriodd y Pwyllgor y ddeiseb yn flaenorol ar:** 04 Rhagfyr 2008 a 27 Ionawr 2009

**Y wybodaeth ddiweddaraf:** Cafwyd y wybodaeth ddiweddaraf gan y deisebydd ac mae'n amgaeedig fel rhan o PET(3) 06-09 Papur 2A.

### (xix) P-03-190 Na i Ffordd Maes Awyr Dyffryn Elai (NEVAR)

**Geiriad y ddeiseb**

'Rydym yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i ystyried y diffygion difrifol sydd yn eu hastudiaeth a'u hymgynghoriad cyhoeddus 'Gwella Mynediad i Faes Awyr Rhyngwladol Caerdydd a Chroes Cwrlwys' cyn gwneud penderfyniad ynglŷn â gwelliannau na datblygiadau i ffyrdd, ac eithrio'r rhai i leddfu tagfeydd yng Nghroes Cwrlwys.'

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://217.140.43.190/gethome/e-petitions-old/dogfennau-busnes-deisebau/p-03-190.htmP-03-190%20-%20NEVAR

**Cynigiwyd y ddeiseb gan:** NEVAR

**Nifer y deisebwyr :** 1 sefydliad

**Ystyriwyd yn flaenorol gan y Pwyllgor ar :** 04 Rhagfyr 2008, 13 Ionawr 2009 a 27 Ionawr 2009.

**Y wybodaeth ddiweddaraf:** Mae papur wedi dod i law'r Pwyllgor gan Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau.

### (xx)P-03-194 Gwasanaeth bws Cwm Rhymni i Gaerdydd

### Geiriad y ddeiseb:

'Rydym ni, sydd wedi llofnodi isod, yn galw ar Gynulliad Cymru i gefnogi'r syniad o ailgychwyn y gwasanaeth bws o Fargoed i Gaerdydd. Byddai darparu cyllid drwy Grant Gwasanaethau Trafnidiaeth Leol Llywodraeth Cynulliad Cymru'n galluogi teithwyr Cwm Rhymni i

deithio i Gaerdydd, eu prif ddinas, ar wasanaeth bws uniongyrchol. Nid yw'r bysiau sy'n teithio i Bontypridd a Chaerdydd wedi eu hamseru i gysylltu â gwasanaethau eraill yn effeithiol.  Felly, mae torri gwasanaethau yn peryglu swyddi ynghyd â hwyhau'r amser y mae'n rhaid i deithwyr aros ar holl deithiau llwybr bws X38.'

**Linc i'r ddeiseb:** h

ttp://www.cynulliadcymru.org/gethome/e-petitions-old/eform-sign-petition-old/p-03-194.htm

**Cynigiwyd gan:** Penelope Cody

**Nifer y deisebwyr:** 335

**Ystyriodd y pwyllgor y ddeiseb hon ar:** 13 Ionawr 2009 a 10 Chwefror 2009.

**Y wybodaeth ddiweddaraf:** Cafwyd y wybodaeth ddiweddaraf gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ac mae'r adroddiad yn amgaeedig fel rhan o PET(3) 06-09 Papur 2A.

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**

**Mawrth 2009**